Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Llanidloes

**Llanidloes**
**Powys**
**SY18 6EX**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Llanidloes

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Llanidloes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 710 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 618 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 92 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.2%) | 12.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 14.8%) | 18.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 10.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/04/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/04/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/02/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Llanidloes wedi ymrwymo i ddarparu ‘cyfleoedd gwych i bawb ddysgu’ ar gyfer ei holl ddisgyblion. Mae’r ysgol yn amgylchedd gofalgar a chefnogol, lle caiff pawb eu gwerthfawrogi a’u hannog i roi o’u gorau. Mae arweinwyr a staff yn sicrhau mai lles staff a disgyblion yw eu prif flaenoriaeth. Maent yn sicrhau diwylliant diogelu cadarnhaol lle mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd rhag bwlio. Caiff disgyblion eu hannog i ofalu am ei gilydd, a pharchu ei gilydd, ac mae bron pob un ohonynt yn gwrtais a chyfeillgar o gwmpas yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’i gilydd yn ystod y diwrnod ysgol.

At ei gilydd, mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion mewn gwersi, maent yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu’n dda ac yn gwneud cynnydd da. Mewn ychydig o wersi hynod effeithiol, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn holi’n fedrus, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn bennaf oherwydd disgwyliadau isel a chynllunio gwan athrawon. Mae arlwy cwricwlwm yr ysgol yn gryfder arbennig. Mae’n darparu cyfleoedd personoledig sy’n anelu at ymgysylltu â disgyblion o bob gallu, ennyn eu brwdfrydedd, a bod o fudd iddynt. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn elwa ar gynllunio’r cwricwlwm yn ofalus sy’n ystyried ystod eang o ddewisiadau pwnc, gan gynnwys y rhai sy’n addas ar gyfer yr economi leol.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gymorth gwerthfawr ar gyfer eu lles a’u dysgu. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn darparu arweiniad buddiol, pan fydd angen. Maent yn gweithio’n effeithiol gydag asiantaethau allanol gan sicrhau bod disgyblion yn manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu fel unigolion. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy’n mynychu Canolfan Sbectrwm Awtistig (CSA) yr ysgol, yn elwa ar ymyriadau a chymorth pwrpasol a theilwredig.

Mae arweinwyr yn meithrin ymdeimlad go iawn o gymuned o fewn yr ysgol ac yn y fro. Maent yn darparu cymorth cryf ar gyfer teuluoedd o aelwydydd incwm isel. Yn ychwanegol, mae ganddynt weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu’r defnydd o’r Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o wybodaeth berthnasol i nodi cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn blaenoriaethu’n ddigon manwl gywir yr agweddau ar y ddarpariaeth sydd angen eu gwella fwyaf. Er bod gan arweinwyr ar bob lefel uchelgais ddiffuant i wella’u gwaith ac wedi nodi’n fras y prif feysydd sydd angen eu gwella, mae diffygion mewn ychydig o feysydd o waith yr ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys agweddau ar addysgu a datblygu medrau disgyblion yn gynyddol.

Mae arweinwyr wedi canolbwyntio’n ofalus ar wella presenoldeb disgyblion. Maent yn monitro presenoldeb disgyblion yn rheolaidd ac yn herio’r rhai sy’n colli’r ysgol. Er bod y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol dros gyfnod, ar y cyfan, mae cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan yn is nag ydynt ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae’r tîm wedi tynnu sylw’r ysgol at bryder ynghylch iechyd a diogelwch.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn blaenoriaethu'n fanwl gywir yr agweddau ar y ddarpariaeth sydd angen eu gwella fwyaf

A2 Gwella ansawdd yr addysgu i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad

A3 Sicrhau bod ymagwedd gydlynus ac a ddeellir yn dda at ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol

A4 Gwella presenoldeb yn yr ysgol

A5 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau, ac mewn ychydig o wersi effeithiol iawn, maent yn gwneud cynnydd hynod gryf. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau pwnc, fel arfer o ganlyniad i ddiffygion mewn addysgu. At ei gilydd, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn y Ganolfan Sbectrwm Awtistig (CSA) yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu cynlluniau datblygu unigol a'u targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol, ac o roi'r cyfle iddynt, maent yn cymhwyso'u dysgu'n hyderus i gyd-destunau newydd ac anghyfarwydd. Er enghraifft, mewn mathemateg, maent yn cymhwyso'u gwybodaeth am sut i ddatrys hafaliadau llinol i bennu'r rhif cyfan lleiaf posibl sy'n bodloni anhafaledd. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth galw dysgu blaenorol i gof, ac yn gyffredinol, mae hyn oherwydd diffyg cyfleoedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar staff. Maent yn barod i gyfrannu at drafodaeth ddosbarth ac yn rhoi atebion byr i gwestiynau yn hyderus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi atebion estynedig, gan gyfiawnhau eu hymatebion ac yn rhoi rhesymau tra ystyriol am eu barn. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi atebion byr a sylfaenol yn unig ac nid ydynt yn ehangu ar eu syniadau, yn aml

oherwydd diffyg her gan yr athro. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gyndyn i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.

Wrth ddarllen mewn gwersi Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau darllen sylfaenol cadarn ac yn dethol gwybodaeth berthnasol yn llwyddiannus o ystod o destunau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyfosod gwybodaeth yn briodol o ystod o destunau a ffynonellau'r cyfryngau, er enghraifft pan fyddant yn ymchwilio i ymosodiad 9/11 ar Unol Daleithiau America mewn hanes. Maent hefyd yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn llwyddiannus, er enghraifft wrth edrych ar sut mae'r awdur yn cyflwyno cymeriadau yn y nofel 'Animal Farm'. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn casglu gwybodaeth o ddeunydd ffynhonnell yn arbennig o dda, yn archwilio diben testunau yn fanwl ac yn rhoi ymatebion ysgrifenedig tra ystyriol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd dadansoddi ystyr ymhlyg sylfaenol mewn testunau. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau darllen uwch i gefnogi eu dysgu'n ddigon da oherwydd bod cyfleoedd cyfyngedig i wneud hynny ar draws y cwricwlwm.

Yn y ddwy iaith, mae mwyafrif y disgyblion yn trefnu eu hysgrifennu yn rhesymegol ac yn strwythuro'u hysgrifennu yn briodol mewn paragraffau. Mae ganddynt eirfa gadarn ac yn ysgrifennu â chywirdeb technegol priodol. Maent yn amrywio eu strwythurau brawddeg yn briodol, ac mae gan leiafrif o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o gynulleidfa a diben. O roi cyfle iddynt, maent yn ysgrifennu'n estynedig yn briodol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau mynych ac esgeulus yn eu hysgrifennu yn y ddwy iaith.

Mae llawer o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu dealltwriaeth o'r iaith a'i diwylliant. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol wrth ymateb i gwestiynau eu hathro, ac yn dangos ynganiad da. Mae ychydig ohonynt yn ehangu eu geirfa ac yn cyfathrebu'n dda yn Gymraeg. Yn eu hysgrifennu, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu brawddegau byr yn Gymraeg yn gywir gan ddefnyddio geirfa addas. Mae ychydig ohonynt yn datblygu eu hysgrifennu'n dda, gan amrywio amserau a defnyddio geirfa fwy soffistigedig, er enghraifft wrth roi eu barn ar fanteision ac anfanteision defnyddio ffonau symudol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemategol a rhifedd. Mae ganddynt fedrau rhif sylfaenol da ac amgyffrediad priodol o gysyniadau rhif. Mae ganddynt fedrau rhifyddeg pen addas a gallant ddefnyddio cyfrifiannell yn effeithiol. Maent yn cyfrifo gan ddefnyddio canrannau, degolion a ffracsiynau yn fedrus. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynegi rhifau fel cynnyrch rhifau cysefin ac yn defnyddio'u hatebion i ddod o hyd i ffactor cyffredin uchaf dau rif. Mae mwyafrif ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth addas o siapiau a mesurau. Er enghraifft, maent yn trosi rhwng gwahanol fesurau metrig ac yn defnyddio Theorem Pythagoras i bennu p'un a yw triongl yn cynnwys ongl dde.

Mae gan y mwyafrif ohonynt fedrau cadarn wrth drin data. Gallant gyfrifo cyfartaleddau a llunio ystod o graffiau'n gywir. O roi'r cyfle iddynt, maent yn dadansoddi graffiau'n briodol. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent yn eu medrau rhifedd ac nid yw eu dealltwriaeth o gysyniadau rhif wedi'i datblygu'n ddigon da. Yn gyffredinol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso medrau rhifedd sylfaenol yn gywir ar draws y cwricwlwm, er enghraifft

wrth ddefnyddio amrywiaeth o fformiwlâu mewn peirianneg i gyfrifo effeithlonrwydd bylb golau.

Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion fedrau digidol sylfaenol priodol, fel prosesu geiriau, defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil a chreu cyflwyniadau. O roi cyfleoedd iddynt wneud hynny, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol uwch yn dda, fel defnyddio meddalwedd i ddylunio gemau fideo ar gyfer plant sy'n hyrwyddo seiclo.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, mewn dylunio a thechnoleg, maent yn cynrychioli delweddau 3D ar arwynebau 2D gan ddefnyddio llinellau i greu persbectif. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn gyffredinol yn datblygu medrau meddwl buddiol, er enghraifft pan fyddant yn cyfiawnhau beth oedd y ffactor pwysicaf o ran llwyddiant Harri VIII fel brenin. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn briodol. Er enghraifft, maent yn dangos rheolaeth dda wrth reoli cyflymdra'r nodwydd ar beiriant gwnïo. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dycnwch a stamina yn ystod sesiynau sbin yn eu gwersi addysg gorfforol.

## Cyflawniad a chynnydd

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn eglur ac mae llawer ohonynt yn siarad yn huawdl ac yn hyderus â staff ac ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso hyn yn dda i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth o blatiau tectonig i lunio casgliadau yn llwyddiannus ar ymylon platiau dargyfeiriol yn annibynnol. Mewn gwersi, maent yn gwrando'n astud ar esboniadau, ar y cyfan, ac yn ateb cwestiynau'n fedrus, gan esbonio'u rhesymu yn glir.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Uwchradd Llanidloes yn foesgar a chwrtais. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol â staff. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi presenoldeb staff yn ystod amser cinio ac amser egwyl i'w cynorthwyo. Maent yn barchus tuag at bobl eraill ac yn dweud nad ydynt yn cael eu heffeithio gan fwlio. Mae disgyblion yn canmol y cymorth a gânt gan eu hathrawon a'u harweinwyr blwyddyn ac yn hyderus i ofyn am gymorth os oes ganddynt unrhyw bryderon. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'r ardal 'Gofal' i ofyn am fwy o gymorth ac arweiniad.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt i ddiwallu eu hanghenion o ran lles emosiynol, corfforol a meddyliol, er enghraifft trwy'r clwb brecwast a sesiynau nofio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i fyw bywydau iach ac aros yn ddiogel ar-lein. Mae llawer o ddisgyblion yn gadarnhaol bod yr ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol, fel timau chwaraeon, ac ystod o glybiau a thripiau addysgol sy'n eu helpu i fod yn unigolion iach a hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau llais y disgybl ac yn croesawu cyfleoedd i ddatblygu rolau arwain. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn y Cyngor Ysgol, y rhaglen llysgenhadon chwaraeon, y clwb eco a'r Criw Cymraeg. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion o'r farn nad yw'r ysgol yn gofyn am eu barn nac yn gweithredu yn unol â'u safbwyntiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn brydlon ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Maent yn ymateb yn gadarnhaol pan roddir gwaith heriol iddynt, gan ddal ati i ganolbwyntio a dangos lefelau da o wydnwch. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n dda, er enghraifft wrth weithio mewn parau i greu aildrefniant o 'Sosban Fach' mewn gwersi cerddoriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau da wrth ddysgu'n annibynnol er nad yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn ymgysylltu'n ddigon da â'u gwaith. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y ffordd maent yn cyflwyno eu gwaith.

Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, disgynnodd cyfradd presenoldeb yr ysgol o swm llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd uwchlaw cyfradd presenoldeb ysgolion tebyg. Roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd cyfradd yr absenoldebau parhaus ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, er mis Medi 2023, nid yw cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan wedi cael eu cynnal ac maent ychydig yn is nag ydynt ar gyfer yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae llawer o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â'u disgyblion, a llawer ohonynt yn datblygu amgylchedd dysgu pwrpasol. Maent yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth clir, sy'n helpu disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u gwaith a phontio'n esmwyth rhwng tasgau a gweithgareddau. Mae'r athrawon hyn yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u dysgu. Maent yn fodelau iaith effeithiol ac yn gwneud defnydd da o derminoleg pwnc.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, sy'n helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wybod a'i wneud. Yn ychwanegol, mae athrawon yn paratoi adnoddau sy'n ymgysylltu â disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn fuddiol. Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer cynnydd disgyblion. Maent yn ystyried sut mae tasgau'n helpu disgyblion i ddatblygu a chymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc mewn gwahanol gyd-destunau. Yn aml, mae'r tasgau a'r gweithgareddau hyn yn adeiladu ar ei gilydd yn gynyddol i helpu disgyblion i wneud cynnydd cadarn.

Mae gan fwyafrif yr athrawon ddisgwyliadau addas o'r hyn y gall disgyblion ei ddysgu a'i wneud. Maent yn darparu lefel briodol o her ac yn rheoli cyflymdra'r dysgu'n ofalus i sicrhau eu bod yn cefnogi anghenion disgyblion yn briodol. Mae'r athrawon hyn yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus wrth iddynt weithio, ac yn darparu adborth llafar a chymorth gwerthfawr. Maent yn holi disgyblion yn effeithiol i wirio eu bod yn galw i gof ac yn deall, ac yn aml yn herio disgyblion i roi atebion ac esboniadau manwl.

Mewn ychydig o wersi hynod effeithiol, mae athrawon yn angerddol am eu maes pwnc ac mae ganddynt ddisgwyliadau hynod uchel o'r hyn y gall disgyblion ei wneud a'i gyflawni. Maent yn rhoi cyfarwyddyd ac esboniad bywiog, sy'n ysbrydoli disgyblion i ymgysylltu'n dda yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gweithgareddau hynod effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a chyflym. Maent yn esbonio cysyniadau anodd yn effeithiol ac yn addasu eu haddysgu'n fedrus i ymateb i anghenion disgyblion. Yn y gwersi prin hyn, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar i brocio a datblygu meddwl disgyblion. Yn ychwanegol, caiff disgyblion eu herio i gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn cyd-destunau newydd a chynyddol gymhleth, a datblygu ansawdd eu hymatebion.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'r dysgu'n ddigon da. Maent yn darparu gweithgareddau sy'n cadw disgyblion yn brysur neu dasgau nad ydynt yn rhoi digon o her iddynt. O ganlyniad, mae cyflymdra'r dysgu weithiau'n rhy araf, ac nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mewn rhai achosion, caiff gwersi eu gor-reoli gan yr athro ac mae hyn yn arwain at ddiffyg cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Mewn achosion eraill, mae athrawon yn colli cyfleoedd i herio a datblygu ymatebion disgyblion trwy holi ymhellach. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn mynd i'r afael ag ymddygiad aflonyddgar na goddefolrwydd disgyblion yn ddigon da.

Mae staff yn y CSA yn deall anghenion eu disgyblion yn dda ac yn gweithio'n agos â staff addysgu i helpu disgyblion i gymryd rhan yn eu gwersi prif ffrwd. Maent yn defnyddio systemau asesu'r ysgol yn briodol i olrhain cynnydd disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig addas ar gyfer disgyblion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys canmoliaeth gadarnhaol, targedau ar gyfer gwella a chyfle i ddisgyblion ymateb. Mewn ychydig o adrannau, lle mae athrawon yn gosod targedau heriol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel yn ymwneud ag ymatebion disgyblion, mae disgyblion yn gwneud gwelliannau cynyddol a gwerthfawr i'w gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd targedau athrawon a'u disgwyliadau o ddisgyblion yn amrywio. Pan fydd disgwyliadau'n aneglur, mae ymatebion disgyblion yn arwynebol. Nid yw'r defnydd o adborth i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i seilio ar ddewisiadau disgyblion ac yn adeiladu'n briodol ar eu dysgu blaenorol. Mae'n cynnwys ystod briodol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, fel amaethyddiaeth, twristiaeth, a gwallt a harddwch.

Mae'r ysgol wedi ehangu arlwy'r cwricwlwm trwy bartneriaethau llwyddiannus â darparwyr allanol. O ganlyniad, mae'n darparu cwricwlwm amgen gwerthfawr, sy'n hynod fuddiol i'r disgyblion mwyaf bregus yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r cwricwlwm yn llwyddo i ddiwallu anghenion bron pob un o'r disgyblion. Mae staff wedi rhoi ystod eang o strategaethau ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gwbl hygyrch i bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd efallai'n wynebu rhwystrau rhag dysgu. Yn y CSA, mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion disgyblion unigol trwy ddull teilwredig. Mae staff yn gwneud addasiadau synhwyrol i amserlenni unigol fel bod y disgyblion hyn yn teimlo'n ddiogel yn

amgylchedd yr ysgol, yn hyderus ac yn gallu ymgysylltu'n llawn â'u dysgu. Mae awydd uchelgeisiol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn y ganolfan yn ennill profiadau dysgu yn y brif ffrwd ac yn gallu astudio amrywiaeth o bynciau sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae'r ganolfan yn darparu arferion cyson i ddisgyblion gynllunio a threfnu eu diwrnod, rhannu unrhyw bryderon neu ddathlu llwyddiannau, ac elwa ar ystod o opsiynau buddiol i gefnogi eu lles, fel ymwybyddiaeth ofalgar, sy'n helpu datblygu eu hyder.

Mae'r ysgol yn nodi ac yn cefnogi'n addas y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol â'u medrau, yn enwedig llythrennedd. Mae llawer o athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol yn cael ei chynllunio na'i chydlynu'n ddigon da.

Rhoddir cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion i'w helpu i baratoi i wneud dewisiadau gwybodus am eu camau nesaf a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gymorth gynhwysfawr i ddisgyblion sy'n pontio i gyfnod allweddol 4 a llwybrau ôl-16. Mae hyn yn cynnwys cymorth ac arweiniad effeithiol ynghylch gyrfaoedd a'r byd gwaith. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 10 a 12 yn parhau i elwa ar leoliadau profiad gwaith. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr, sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymdeithasu a datblygu eu medrau ehangach y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau celf, tripiau cerddorol, ac ymweliadau addysgol.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer ei Chwricwlwm i Gymru ar ôl treialu a gwerthuso priodol, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i farn rhanddeiliaid. Mae wedi'i seilio ar gwricwlwm disgyblu lle mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau pwnc, ochr yn ochr â'u medrau ehangach. Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd addysgu ac asesu o ansawdd uchel, ac maent wedi gweithio'n agos gydag ysgolion clwstwr partner i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Caiff disgyblion gyfleoedd addas i ddatblygu eu gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymreig, er enghraifft trwy Eisteddfod yr ysgol, cystadlaethau'r Urdd ac arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol. Maent hefyd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth a'u treftadaeth trwy ddysgu am hanes lleol a hanes Cymru. Er enghraifft, mewn gwersi hanes, mae disgyblion yn astudio arwyddocâd protest y Siartwyr yn Llanidloes wrth astudio pŵer gwleidyddol yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Er bod cyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo medrau Cymraeg yn gyfyngedig y tu allan i wersi Cymraeg a chyfrwng Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill cymhwyster Lefel 2 mewn Cymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Cynhaliodd yr ysgol ymgynghoriad cynhwysfawr â disgyblion a rhieni, a lansio'i darpariaeth 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' (ACRh). Mae'r rhaglen les hon, a gyflwynir trwy gylchdroi pynciau, wedi cael ei chynllunio'n ofalus i greu cwricwlwm sy'n briodol i oedran ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8. Yn ychwanegol, mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 3 a'r chweched dosbarth yn elwa ar sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn ystod amser tiwtor, tra bydd disgyblion cyfnod allweddol 4 yn cael cymorth priodol trwy wersi ABCh dynodedig lle maent yn astudio tuag at gymhwyster.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am amrywiaeth ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r ysgol yn dathlu Mis Hanes Pobl Ddu a disgyblion yn ystyried bywyd a gweithiau Martin Luther King a Nelson Mandela mewn gwersi addysg grefyddol. Mewn gwersi hanes, mae disgyblion yn astudio ffigurau hanesyddol o'r gymuned LHDTC+.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Uwchradd Llanidloes yn gymuned groesawgar, sy'n darparu gofal ac arweiniad effeithiol i ddisgyblion. Mae tîm o staff ymroddgar yn ymateb yn sensitif i anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion trwy system gymorth gynhwysfawr a threfnus. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn eu dysgu a'u lles. Mae staff yn yr ardaloedd 'Gofal', 'Cymorth' a 'Cynnydd' yn ymateb yn dda i anghenion amrywiol disgyblion ac yn darparu cymorth pwrpasol i wella'u hymgysylltiad a'u lles. Mae hyn yn gryfder arbennig yng ngwaith yr ysgol. Mae staff sy'n darparu cymorth teilwredig trwy'r darpariaethau arbenigol hyn yn gofalu'n eithriadol o dda am anghenion emosiynol ac ymddygiadol eu disgyblion.

Mae arweinwyr blwyddyn a staff lles yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion y disgyblion yn eu gofal. Rhoddir cymorth ac arweiniad emosiynol buddiol i ddisgyblion i oresgyn unrhyw rwystrau a allai eu hatal rhag ymgysylltu â dysgu, gan gynnwys gallu manteisio ar wasanaethau cwnsela a gwasanaeth nyrsio'r ysgol. Mae arweinwyr blwyddyn yn monitro ymddygiad a phresenoldeb disgyblion unigol ac yn darparu cymorth amserol a buddiol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn mynychu rhaglen amgen oddi ar y safle, sy'n helpu sicrhau eu presenoldeb parhaus a'u hymgysylltiad â dysgu. Fodd bynnag, nid yw cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan wedi cael eu cynnal ac maent ychydig yn is nag oeddent ar gyfer yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Mae gan y tîm ADY gysylltiadau gwerthfawr ag ystod o asiantaethau allanol a rhieni, sydd â rôl allweddol yn yr ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y disgybl at gyfarfodydd adolygu. Mae'r tîm hwn yn nodi ac yn cynorthwyo disgyblion ag ADY yn effeithiol. Ochr yn ochr â'r tîm lles, maent yn monitro'n ofalus unrhyw ymyriadau a gaiff disgyblion, ac yn adolygu'r cynnydd a wnânt yn erbyn eu targedau unigol yn rheolaidd.

Mae'r CSA yn sylfaen groesawgar a chefnogol ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion awtistiaeth. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd cynnes, cefnogol a chynhyrchiol. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwersi prif ffrwd i gefnogi datblygiad eu medrau dysgu ehangach.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae arweinwyr yn y tîm ADY yn wybodus ac yn darparu arweiniad effeithiol i athrawon. Mae'r tîm yn darparu proffiliau un dudalen buddiol ar gyfer pob un o'r disgyblion sydd ag ADY. Mae'r proffiliau hyn yn adlewyrchu dyheadau disgyblion, eu hanghenion a'u strategaethau i'w cefnogi i gyflawni eu nodau. At ei gilydd, mae athrawon yn gwneud defnydd addas o'r wybodaeth hon wrth

gynllunio'u gwersi. Caiff staff eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu ac anghenion disgyblion mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol i hyrwyddo iechyd corfforol a diddordebau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, er enghraifft rygbi mewn cadair olwyn a chymhwyster Dug Caeredin. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfranogi ac ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol trwy gynyrchiadau ysgol a'r clwb gitâr.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen bontio gynhwysfawr i sicrhau profiadau cadarnhaol ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol ym Mlwyddyn 7. Caiff hyn ei gryfhau ar gyfer disgyblion bregus sy'n elwa ar raglen weithgareddau estynedig. Mae'r ysgol yn paratoi ei disgyblion yn briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu taith addysg trwy gydweithio â Gyrfa Cymru. Mae hyn yn cynnwys darparu arweiniad ar geisiadau swydd a ffug gyfweliadau â busnesau lleol.

Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu addysg foesol ac ysbrydol disgyblion yn addas. Mae gwasanaethau ac amser tiwtor yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol. Mae athrawon yn darparu rhaglen ABCh briodol, sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i ofalu amdanyn nhw eu hunain, pobl eraill a'r byd.

Mae arweinwyr blwyddyn a'r tîm lles yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a thrafod presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Maent yn nodi disgyblion sy'n dangos ymddygiad negyddol a'r rhai sydd â chyfraddau absenoldeb uchel, ac yn rhoi cymorth pwrpasol iddynt. Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae staff ar bob lefel yn hyrwyddo diwylliant diogelu ac yn deall eu rôl mewn cadw disgyblion yn ddiogel. Ceir trefniadau cadarn i gadw disgyblion yn ddiogel. Caiff pob un o'r staff hyfforddiant diogelu addas bob blwyddyn trwy ddiweddariadau mewn modiwlau ysgol ac e-ddysgu, ac mae ychydig o staff perthnasol yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol. Ceir trefniadau priodol ar gyfer recriwtio staff a phobl eraill sy'n dod i gysylltiad â disgyblion yn ddiogel. Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer ymateb i faterion diogelu, ac mae'n gweithredu'n brydlon, gan wneud atgyfeiriadau i asiantaethau allanol, lle bo'n briodol. Ceir asesiadau risg iechyd a diogelwch addas ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle. Fodd bynnag, nododd y tîm bryder ynghylch iechyd a diogelwch yn ymwneud â safle'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei deall a'i rhannu'n dda ar draws yr ysgol a'i chymuned. Lles disgyblion a staff sydd wrth wraidd y weledigaeth hon, sydd wedi'i seilio ar ddarparu lefelau uchel o ofal i bawb, a cheisio darparu 'cyfleoedd gwych i bawb ddysgu' ar gyfer disgyblion.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol ac ymroddgar sydd â disgwyliadau uchel o staff. Caiff ei gefnogi'n fedrus gan yr uwch dîm arweinyddiaeth estynedig, a gyda'i gilydd, maent wedi llwyddo i greu ethos tîm ymhlith staff lle maent yn gweithio gyda'i gilydd er budd disgyblion. Yn gyffredinol, rhannwyd rolau a chyfrifoldebau arwain yn briodol ymhlith y tîm arweinyddiaeth estynedig mawr. Mae'r trefniant hwn yn darparu dysgu proffesiynol buddiol i staff ddatblygu eu medrau arwain ysgol gyfan, er nad yw

arweinwyr bob amser yn cael digon o amser i gyflawni'r rolau pwysig hyn yn ddigon effeithiol. Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar y diwylliant diogelu ac wedi arwain at ofal bugeiliol cryf ar gyfer lles disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r CSA. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi sicrhau gwelliannau digonol mewn rhai o feysydd gwaith yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu mewn lleiafrif o achosion, a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u rôl a sut mae hyn yn gweddu i strwythur yr ysgol ac yn cyfrannu at ei blaenoriaethau. Mae llawer ohonynt yn nodi'r cryfderau eang a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb, ac mae lleiafrif ohonynt yn gwneud hyn yn hyderus ac yn fanwl gywir. Ceir calendr clir o gyfarfodydd lle mae arweinwyr yn trafod cynnydd disgyblion ac agweddau ar addysgu a dysgu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys pwyntiau cyffredin ar yr agenda ac adolygiadau cynnydd rheolaidd yn erbyn blaenoriaethau gwella. Caiff camau gweithredu eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Ceir cydbwysedd addas rhwng cymorth a her o fewn y cyfarfodydd hyn, sy'n helpu llawer o arweinwyr canol i ddatblygu yn eu rolau, er nad yw llawer o uwch arweinwyr bob amser yn dwyn y rhai y maent yn eu rheoli i gyfrif yn ddigon trylwyr.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae gwaith yr ysgol i ddatblygu ei Chwricwlwm i Gymru ac ymateb i ddiwygio ADY yn datblygu'n dda, a chyfran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn tyfu. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel. Ystyrir hyn ym mhob agwedd ar gynllunio ar gyfer gwella ac mae'r ysgol yn cymryd ystod o gamau buddiol i wella cyrhaeddiad a lles y disgyblion hyn. Mae hyn yn cynnwys targedu disgyblion unigol ar gyfer cymorth ychwanegol, gweithio'n agos gyda theuluoedd, a sicrhau bod y disgyblion hyn yn gallu ymgymryd â'r ystod lawn o weithgareddau cyfoethogi. Enghraifft nodedig o waith yr ysgol yn y maes hwn yw'r cyswllt y maent wedi'i feithrin â siop yr hosbis lleol lle mae gwisg ysgol sy'n cael ei chyfrannu at yr elusen ar gael i rieni ei phrynu yn ystod diwrnodau HMS ysgol. Mae'r fenter hon wedi bod yn llwyddiant o ran sicrhau bod gwisg ysgol ar gael i rieni ei phrynu am bris rhesymol, a rhoddir yr elw i'r elusen. Mae gwaith yr ysgol i liniaru effeithiau tlodi wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyflawniad y grŵp hwn o ddisgyblion.

Mae hunanwerthusiad arweinwyr wedi'i seilio ar ystod briodol o weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol o wersi, siarad â disgyblion ac edrych ar eu gwaith. Yn aml, mae uwch arweinwyr yn cydweithio ag arweinwyr canol ar y tasgau hyn. Caiff athrawon a llywodraethwyr eu cynnwys yn y broses hon o bryd i'w gilydd. Mae arweinwyr yn gofyn am farn disgyblion a rhieni'n rheolaidd, a cheir tystiolaeth fod eu barn yn dylanwadu ar arfer yr ysgol, er enghraifft gwahardd disgyblion rhag defnyddio ffonau symudol, dychwelyd i gynnal nosweithiau rhieni wyneb yn wyneb yn ddiweddar, ac ehangu opsiynau chwaraeon o fewn y cwricwlwm. Mae gwerthusiadau uwch arweinwyr o ddysgu, addysgu ac agweddau eraill ar ddarpariaeth yr ysgol yn gynhwysfawr, yn drylwyr, ac yn gywir, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn ansawdd y gwerthusiadau a gynhelir gan arweinwyr canol, ac nid ydynt bob amser yn ystyried effaith y camau a gymerwyd, yn enwedig ar ddysgu disgyblion.

Mae uwch arweinwyr wedi nodi nifer fach o flaenoriaethau gwella eang ac wedi rhoi cynlluniau addas ar waith i ysgogi'r rhain. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau'n rhy eang, ac o ganlyniad, nid ydynt yn cynnwys y manwl gywirdeb a'r ffocws sydd eu hangen i gyflawni cynnydd cyflym. Yn ychwanegol, mae llawer o gynlluniau eraill a mentrau pellach i staff eu hystyried. At ei gilydd, mae diffyg manwl gywirdeb i nodi'n fanwl gywir y blaenoriaethau pwysicaf a chanolbwyntio ar gamau a fydd yn ysgogi gwelliant cynaledig pan roddir amser iddynt gael eu hymgorffori.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae'r amcanion yn cyd-fynd yn addas â blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol, a'r trefniadau'n cynnwys cyfleoedd defnyddiol i staff drafod eu hanghenion dysgu proffesiynol gydag arweinwyr. Caiff pob un o'r staff gyfleoedd ar gyfer ystod werthfawr o ddysgu proffesiynol a ddarperir yn fewnol a chan ddarparwyr allanol, a chyfleoedd i gymryd rhan ynddynt. Mae'r rhaglen 'Gwella' werthfawr yn caniatáu cyfle i staff ddewis agwedd ar addysgu i'w datblygu a gweithio mewn parau i arsylwi a thrafod eu harfer. Yn ychwanegol, mae athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gydweithio mewn 'Timau Ymchwil' yn canolbwyntio ar agweddau ar waith yr ysgol, fel gwella presenoldeb a lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae arweinwyr a darpar arweinwyr yn elwa ar gyfleoedd i fynychu rhaglenni arweinyddiaeth a chyfrannu at waith y tîm arweinyddiaeth estynedig. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol bob amser yn cael ei thargedu'n ddigon da i fynd i'r afael â'r union feysydd sydd angen y gwelliant mwyaf brys neu gael eu gwerthuso'n ddigon trylwyr.

Mae rheolwr busnes, pennaeth a chorff llywodraethol yr ysgol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn briodol i weddu i feysydd presennol yr ysgol ar gyfer gwella. Mae'r chweched dosbarth yn gost effeithiol, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd gan yr ysgol gronfeydd wrth gefn cadarnhaol. Caiff gwario cyllid grant, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, ei gynllunio'n ofalus a'i werthuso'n briodol trwy fesur effaith gwario ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio uwch arweinwyr yn briodol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol sy'n eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o waith yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Gynradd Llanidloes. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn rhannu un corff llywodraethol ac yn gweithio'n agos ar ychydig o agweddau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion o'r ddwy ysgol yn perfformio gyda'i gilydd yng nghynhyrchiad Mary Poppins, a disgyblion oedran uwchradd yn cynorthwyo'u cyfoedion cynradd fel 'Cyfeillion Darllen' Cymraeg.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2024